# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol a Heddwch

*Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Chwefror 25, 2015*

*Ystafell Briffio'r Cyfryngau yn y Senedd, 12.30pm*

**Yn bresennol**

- Bethan Jenkins AC
- Rhodri Glyn Thomas AC
- Martin Pollard, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Craig Owen, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Judith Nubold, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Sophie Haywood, staff cymorth Julie Morgan AC
- Jane Harris

1. **Ethol cadeirydd**

   Enwebwyd, eiliwyd ac etholwyd Bethan Jenkins AC yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol a Heddwch gyfer 2015-16.

2. **Ethol ysgrifennydd**

   Enwebwyd, eiliwyd ac etholwyd Craig Owen AC yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol a Heddwch gyfer 2015-16.

3. **Cytuno i gyflwyno adroddiad blynyddol yn dilyn y cyfarfod**

   Cytunwyd. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ar wahân.

4. **Trafod camau nesaf y grŵp**

- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â strategaeth ddysgu prosiect heddwch Cymru, a sut y gellid ei hyrwyddo ymhlith yr Aelodau;
- Awgrymwyd y gallai'r grŵp ganolbwyntio ar fewnfudo ac amlddiwylliannaeth, ac yn benodol ar gynorthwyo ysgolion i wybod pwy sy'n cael eu radicaleiddio, ac i atal hynny;

- Cynigiodd yr ysgrifennydd ddrafftio rhaglen o syniadau (fel siaradwyr gwadd - awgrymwyd un a oedd yn adfer o adeiladau yn Nablus, Palesteina) y gallai pob aelod o'r grŵp ychwanegu ati;
- Trafodwyd sut y gallai'r prosiect pedair blynedd, Cymru dros Heddwch, fod yn rhan o waith y grŵp, a sut y gallai'r grŵp trawsbleidiol roi llwyfan i grwpiau eraill sy'n ymwneud â'r maes hwn;
- Awgrymwyd y dylid archwilio'r modd y gallai prifysgolion Cymru ymwneud ag Academi Heddwch Cymru;
- Awgrymwyd y gellid paratoi darn o waith yn gysylltiedig â nodau strategol Llywodraeth Cymru a sut y maent yn ymwneud â materion heddwch, fel sy'n digwydd ym maes caffael a materion eraill;
- Awgrymwyd bod Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei archwilio i weld sut y gallai unrhyw ganllawiau atodol ystyried materion heddwch;
- Awgrymwyd bod y grŵp yn ystyried treftadaeth heddwch - prosiectau sy'n ymwneud â'r rhyfeloedd byd, er enghraifft;
- Cynigiwyd y gellid creu partneriaethau rhwng sefydliadau o natur debyg a thynnu sylw pellach at waith y grŵp, drwy dudalen Facebook, a Twitter, er enghraifft. Byddai hyn yn caniatáu i'r grŵp bostio cyfweliadau ag aelodau ar-lein, ymhlith pethau eraill;
- Awgrymwyd y gallai siaradwyr Sefydliad Heddwch Cymru hefyd gyfarfod ag aelodau'r Grŵp. Gellid hefyd gynllunio gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau fel Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod;
- Awgrymwyd y dylai'r grŵp edrych ar raglen ddeddfwriaethol Cymru a cheisio cymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

**5. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod i ben.